Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Briff

## Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol i'r Bwrdd – Cyfarfod Mis Ionawr y Bwrdd

Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd ym mis Tachwedd, rydw i wedi canolbwyntio ar sicrhau ein bod ni'n parhau â momentwm ein gwaith ar sawl wyneb. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos fel Timau Gweithredol ac Arweinyddiaeth ar sicrhau bod ein staff yn cymryd rhan yn y gwaith Newid Sefydliadol a gynllunnir ar gyfer 2018, ac wrth baratoi ar gyfer yr arolygon staff a chwsmeriaid sydd i ddod. Hoffwn hefyd tynnu sylw at y gwaith canlynol:

- Mae ein timau wedi llwyddo i reoli'r digwyddiadau tywydd gwael a llanw yn gynnar ym mis Ionawr, gyda llawer o sylw proffil uchel ar ein gwaith yn y cyfyngau. Dyma un enghraifft yn unig o'r ymrwymiad a'r proffesiynoliaeth wych y mae ein staff yn ei arddangos trwy gydol y flwyddyn wrth gyflawni'r canlyniadau gorau i Gymru.

- Mae prosiectau Dylunio Sefydliad a Gwerthusiad Swyddi yn barhau; mae'r rhain wedi'u cynnwys ar agenda'r Bwrdd.

- Rydym yn cynllunio'r cyfnod sefydlu ar gyfer ein Prif Weithredwr newydd, Clare Pillman, a fydd yn ymuno â ni ar 26 Chwefror. Mae Clare eisoes wedi treilio amser yn cyfarfod â grwpiau o staff yng Ngogledd a De Cymru.

- Cyflwynwyd ein Cynllun Corfforaethol hyd at 2022 i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd ar 8 Ionawr iddi hi ei gymeradwyo.

- Agorwyd ein labordy ddadansoddol newydd, a leolir ym Mhrifysgol Abertawe, yn swyddogol gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd.

- Rydym yn dal i ddelio â nifer o feysydd gwaith proffil uchel, megis cynlluniau lliniaru llifogydd a phenderfyniadau caniatáu. Byddaf yn rhoi diweddariad ar lafar yn ystod y cyfarfod.

Briff

### Cyfarfodydd gyda chyrff allanol nad ydynt wedi'u cynnwys yn adroddiad y cadeirydd

| Dyddiad y cyfarfod | Cyfarfod gyda / Digwyddiad | Nodiadau |
|---|---|---|
| 28 Tachwedd | Cyfarfod Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) | Oherwydd bod cyfarfod y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur wedi'i gynnal yng Nghaerdydd, es i i ran o'r cyfarfod er mwyn croesawu'r pwyllgor i Gaerdydd ac i gyflwyno fy hun. |
| 30 Tachwedd | Ymweliad safle gyda'r Gweinidog | Gwnaethom fynd â Hannah Blythyn AC, Gweinidog dros yr Amgylchedd, i Goedwig Clocaenog er mwyn dangos rhywfaint o'r gwaith parhaus ar y safle iddi. |
| 5 Rhagfyr | Cyfarfod misol gyda Chadeirydd y Cabinet | Cyfarfod misol gyda Chadeirydd y Cabinet, gyda'r Gweinidog dros yr Amgylchedd hefyd yn bresennol. Bydd Diane a minnau'n parhau â'r cyfarfodydd misol hyn gyda'r Gweinidog, a bydd Cadeirydd y Cabinet yn mynychu cyfarfodydd o bryd i'w gilydd. |
| 6 Rhagfyr | Agoriad swyddogol Labordy Abertawe | Agoriad swyddogol Labordy Abertawe gyda'r Gweinidog dros yr Amgylchedd. Cafodd hyn ei aildrefnu o fis Mawrth 2017, oherwydd bod Cadeirydd y Cabinet ar gael. |
| 7 a 15 Rhagfyr | Derwyn Owen, Swyddfa Archwilio Cymru | Cyfarfod cyn cyfarfod Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Cyfoeth Naturiol Cymru ar 8 Rhagfyr, er mwyn rhoi sylw i ganlyniadau archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o Cyfoeth Naturiol Cymru. |
| 21 Rhagfyr | Swyddfa Cyllid Cymru | Cyfarfod er mwyn llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Awdurdod Cyllid Cymru. |
| 11 Ionawr | Chris Jones, Dŵr Cymru | Cyfarfod chwarterol gyda Phrif Swyddog Gweithredol Dŵr Cymru. |